# Cyngor ar Gadw Eich Beic yn Ddiogel

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

Caiff tua 300,000 o feiciau eu dwyn bob blwyddyn, a bydd 60% o'r achosion hynny'n digwydd pan na wnaeth y perchennog gadw ei feic yn ddiogel, naill ai am ei fod wedi anghofio neu am ei fod yn meddwl ei fod yn ddiogel. Er bod llawer iawn o feiciau y credir iddynt fod wedi'u dwyn yn cael eu hadfeddiannu bob blwyddyn, ni all yr heddlu eu dychwelyd nac erlyn y troseddwyr am nad ydynt yn gwybod pwy yw'r perchennog.

Rydym wedi llunio cyngor i'ch helpu i gadw eich beic yn ddiogel, yn y gwaith ac yn y cartref.





## Cofrestrwch ef

Cofrestrwch eich beic ar gronfa ddata ddiogel genedlaethol a gydnabyddir gan Diogelu Drwy Ddylunio (Secured by Design – SBD). Mae beic sydd â stamp cronfa ddata arno yn ffordd hynod effeithiol a gweladwy o atal lladron beiciau am eu bod yn gwybod y cânt eu harestio os cânt eu dal â beic cofrestredig yn eu meddiant, am fod modd i'r heddlu ddod o hyd i'r perchennog o fewn eiliadau.

## Cofnodwch ef

Cofiwch gofnodi cymaint â phosibl o fanylion am eich beic, fel y gwneuthurwr/model, rhif y ffrâm (sydd i'w weld o dan y beic rhwng y pedalau neu lle mae'r olwyn ôl yn cysylltu fel arfer), yn ogystal ag unrhyw nodweddion nodedig eraill, a thynnwch lun ohono.

## Rhowch farc diogelwch arno

Mae rhoi marc diogelwch ar eich beic gan ddefnyddio pecyn marcio neu ysgythru asedau a gydnabyddir gan SBD yn ffordd arall hynod effeithiol a gweladwy o atal lladron.

## Tynnwch y rhannau y gellir eu tynnu

Ewch â'r rhannau sy'n hawdd eu tynnu gyda chi, fel y sedd. Neu defnyddiwch sgiwerau neu nytiau cloi a all wneud y beic yn fwy diogel drwy gloi cydrannau'r beic yn sownd yn y ffrâm yn barhaol, gan ei gwneud yn anodd i ladron ddwyn rhannau y gellir eu datgysylltu.

## Cadwch bethau gwerthfawr yn ddiogel wrth feicio

Cadwch eich pethau gwerthfawr yn ddiogel bob amser wrth feicio. Peidiwch â'u rhoi nhw mewn basgedi agored na phanieri.

## Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'ch amgylch

Talwch sylw i'r hyn sy'n digwydd o'ch amgylch bob amser, yn enwedig pan fyddwch yn llonydd. Bydd lladron yn targedu beicwyr diarwybod ac yn dwyn eu pethau gwerthfawr a'u beiciau.

## Clowch ef ddwywaith, rhowch ef mewn lle diogel, a chlowch y cyfan

Gall gymryd cyn lleied ag ychydig eiliadau i ladron dorri drwy rhai cloeon nad ydynt yn bodloni'r Fanyleb a Ffefrir gan yr Heddlu. Cloi ddwywaith yw'r ffordd fwyaf diogel o gloi unrhyw feic. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn bosibl nac yn ymarferol bob amser. Ar unrhyw fath o glo, chwiliwch am logo SBD neu edrychwch ar y rhestr o gloeon a gymeradwyir gan SBD ar waelod y dudalen. Gosodwch eich beic mor agos â phosibl at y postyn fel na fydd gan ladron fawr ddim lle i symud, os o gwbl. Clowch y ffrâm a'r ddwy olwyn yn sownd yn y postyn cloi beiciau. Ystyrir bod cloeon yn wannach pan ddônt i gysylltiad â'r ddaear, felly cadwch nhw oddi ar y llawr.

## Cofiwch fod diogelwch yn dechrau yn y cartref

Mae'n bwysig iawn cofio hyn, gan fod llawer o feiciau'n cael eu dwyn o'r cartref. Sicrhewch eich bod yn cloi eich beic yn ddiogel gartref, yn union fel y byddech yn ei wneud ar y stryd. Clowch eich beic fel y disgrifir uchod mewn garej neu sied a gaiff ei chloi'n ddiogel a'i chynnal a'i chadw'n dda, a sicrhewch nad yw eich beic yn y golwg. Mae nifer o gwmnïau SBD yn gwerthu siediau storio beiciau. Fel mesurau ychwanegol, gellir defnyddio angorau daear ynghyd â larymau garej neu sied. Efallai yr hoffech ystyried dod â'ch beic i mewn i'r tŷ os nad oes man storio digon diogel gennych y tu allan.

# Sut i ddewis y clo beic cywir

Ni ddylai prynu clo beic fod yn ôl-ystyriaeth. Yn y DU, cost beic ar gyfartaledd yw £500, a £2,500 yn achos e-feic, felly mae angen ei ddiogelu

## Y cwestiynau y dylech eu gofyn yw:

### A fydd y clo beic yn cyflawni ei ddyletswydd?

Nid yw'n werth prynu clo beic nad yw wedi llwyddo mewn prawf diogelwch cymeradwy.

### Sut y gallwch adnabod clo o ansawdd?

Mae clo o ansawdd yn un sydd wedi cael ei achredu yn unol â'r Fanyleb a Ffefrir gan yr Heddlu.

### A fydd yn diogelu fy meic?

Bydd clo beic achrededig yn ffordd effeithiol o atal unrhyw leidr.

Yn SBD, rydym yn mynnu safonau diogelwch ar gyfer cynhyrchion diogelu beiciau er mwyn lleihau ac atal achosion o ddwyn beiciau. Caiff amrywiaeth o ddulliau profi eu defnyddio er mwyn canfod i ba raddau y gall cynhyrchion wrthsefyll ymosodiad gan ddefnyddio'r math o offer y gall lleidr eu defnyddio i ddwyn beic.

## Cloeon Beic Diogel

Bydd prynu a defnyddio un cynnyrch a gymeradwyir gan SBD sydd â sgôr diogelwch uchel yn diogelu eich beic yn well na defnyddio dau gynnyrch sydd heb fod yn destun profion diogelwch.

Bydd y lefel o ddiogelwch neu'r math o glo a ddewiswch yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch dewisiadau personol gan fod pob un ohonom yn defnyddio ein beiciau mewn ffyrdd gwahanol.

P'un a ydych yn beicio mewn dinas sydd â darpariaeth dda o leoedd parcio beiciau, allan yn beicio gyda'r plant mewn parc gwledig heb byst cloi beiciau, neu ar lwybr beicio mynydd mewn parc cenedlaethol, bydd angen i chi ddewis y math cywir o glo ar gyfer y gweithgaredd a'r sefyllfa. Bydd math, pwysau a gradd diogelwch i gyd yn ffactorau i'w hystyried.

Mae pob clo a gymeradwyir gan SBD wedi cael ei achredu'n annibynnol yn unol â safon **Sold Secure** a gynhelir gan Gymdeithas y Seiri Cloeon.

**Mae pedair gradd diogelwch i Sold Secure, a Diemwnt yw'r uchaf:**

| SOLD SECURE Bicycle Bronze | SOLD SECURE Bicycle Silver | SOLD SECURE Bicycle Gold | SOLD SECURE Bicycle Diamond |
|---|---|---|---|
| **Efydd** | **Arian** | **Aur** | **Diemwnt** |
| Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnig amddiffyniad rhag lladron manteisgar | Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnig cyfaddawd rhwng diogelwch a chost | Mae'r cynhyrchion hyn wedi'u bwriadu ar gyfer beiciau canolig neu uchel eu gwerth | Y lefel uchaf o ddiogelwch a fwriedir ar gyfer beiciau uchel eu gwerth ac e-feiciau |

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Sold Secure: **https://www.soldsecure.com/**



## Parciwch yn ddiogel

Pan fyddwch yn parcio eich beic mewn lle cyhoeddus, bydd angen i chi ystyried llawer o ffactorau, gan gynnwys eich diogelwch personol eich hun a diogelwch eich beic.

Clowch eich beic mewn lleoedd parcio beiciau diogel cydnabyddedig. Dylai'r lle fod wedi'i oleuo'n dda, dylai gael ei oruchwylio ac, os oes modd, dylai fod system teledu cylch cyfyng ar waith yno.

Caiff hybiau a rheseli beiciau diogel eu darparu gan gynghorau lleol a busnesau. Fodd bynnag, er y bydd profion diogelwch wedi cael eu cynnal ar rai o'r cynhyrchion hyn, ni fydd hyn yn wir bob amser felly byddwch yn wyliadwrus. Mae manylion am y rheseli a'r pyst cloi beiciau a gaiff eu cyflenwi gan gwmnïau sy'n aelodau o SBD ac sydd wedi bodloni'r Fanyleb a Ffefrir gan yr Heddlu i'w gweld isod.

- Peidiwch â gadael eich beic mewn lleoedd anghysbell na thywyll – dylech bob amser adael eich beic yn rhywle lle y byddai'n rhaid i leidr berfformio'n gyhoeddus!
- Peidiwch â chloi eich beic yn sownd wrth adeiledd penagored fel arwyddbost – bydd lladron yn gallu codi'r beic drosto.
- Peidiwch â chloi eich beic yn sownd wrth gât neu wal – bydd lladron yn aml yn gallu pwyso yn ei herbyn i dorri'r clo beic.
- Mae beiciau trydan (e-feiciau) yn ddrud iawn, felly ceisiwch beidio â'u gadael yn yr un lle yn rheolaidd, rhag ofn i leidr penderfynol sylwi arnynt a'u dwyn 'ar archeb'. Dylech hefyd ystyried tynnu'r batri os oes modd. Mae loceri beiciau yn opsiwn da os byddwch yn storio eich e-feic mewn lle cyhoeddus.

## Yswiriant

Sicrhewch fod gennych yswiriant digonol fel rhan o'ch yswiriant cartref ar gyfer dwyn beiciau a'i fod hefyd yn cynnwys dwyn beiciau o dai allan neu siediau. Dylech hefyd wneud yn siŵr bod cyfanswm y gwerth sydd wedi'i yswirio yn ddigonol o ystyried gwerth uchel rhai beiciau ac e-feiciau.

**I gael rhagor o gyngor ar unrhyw rai o'r awgrymiadau diogelwch sydd wedi'u rhestru uchod, neu i gael gwybod sut i brynu cynhyrchion diogelwch a gydnabyddir gan yr heddlu, ewch i**
**www.securedbydesign.com**

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE